## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (HAY ROAD, LLANFAIR-YM-MUALLT, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o bwynt 126 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd Joseph's Pitch hyd at bwynt 526 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno yn Hay Road, Llanfair-ym-Muallt, Powys.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 2 Rhagfyr 2021 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, plan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn yn Llyfrgell Llanfair-ym-Muallt, Antur Gwy, Ffordd y Parc, Llanfair-ym-Muallt, LD2 3BA, eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu eu cael yn rhad ac am ddim o'r Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1486658.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i'r Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod erbyn 23 Rhagfyr 2021. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (HAY ROAD, BUILTH WELLS, POWYS) (40 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under section 84(1)(a) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 40 mph speed limit on the length of the A470 trunk road that extends from a point 126 metres east of the centre-point of its junction with Joseph's Pitch road to a point 526 metres east of the centre-point of that junction at Hay Road, Builth Wells, Powys.

During a period of 21 days from 2 December 2021 a copy of this Notice, the proposed Order, plan and Statement of Reasons for making the Order can be inspected at Builth Wells Library, Antur Gwy, Park Road, Builth Wells, LD2 3BA, viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge from Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1486658.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to Transport.OrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch at the address below by 23 December 2021. Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government